**CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 14**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

29 Mehefin 2023

**Dadl ar y cyd ar adroddiadau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal**

Annwyl Lywydd

Fel y gwyddoch efallai, yn ddiweddar mae'r Pwyllgor Deisebau a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cyhoeddi adroddiadau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Cafodd adroddiad y Pwyllgor Deisebau 'Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal', ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2023. Cafodd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Os nad nawr, pryd?' ei gyhoeddi ym mis Mai 2023.

Mae gorgyffwrdd polisi sylweddol ar draws y ddau adroddiad. Mae adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn trafod gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn eu cyfanrwydd, gan gynnwys gwasanaethau i rieni sydd wedi bod mewn gofal. Mae adroddiad y Pwyllgor Deisebau yn canolbwyntio'n benodol ar wasanaethau i rieni sydd wedi bod mewn gofal. Mae ein hadroddiadau yn dod o dan bortffolio'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn bennaf, maent wedi'u llywio gan farn rhai o'r un rhanddeiliaid (gan gynnwys rhai pobl ifanc penodol sydd wedi cyfrannu at y ddau ymchwiliad), ac maent yn gwneud argymhellion tebyg iawn mewn rhai meysydd.

Yn hytrach na threfnu dadl ar wahân yn y Cyfarfod Llawn ar bob adroddiad, rydym yn cynnig i'r Pwyllgor Busnes gynnal dadl ar y cyd ar y ddau adroddiad yn ystod slot y Cyfarfod Llawn sydd wedi'i neilltuo ar hyn o bryd i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (a drefnwyd ar hyn o bryd ar gyfer 4.55pm ar 12 Gorffennaf). Rydym yn cynnig rhai mân newidiadau i delerau dadl arferol ar adroddiad pwyllgor, sef y canlynol:

- Y cynnig ar gyfer y ddadl fyddai bod y Senedd yn nodi adroddiadau'r ddau bwyllgor.

- Byddai teitl y ddadl yn ymwneud â'r pwnc, yn hytrach na'r naill adroddiad neu'r llall yn benodol.

- Byddai Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Jayne Bryant AS, yn agor ac yn ymateb i'r ddadl.

- Byddai Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, Jack Sargeant AS, yn cael ei alw i siarad yn syth ar ôl i Jayne Bryant AS agor y ddadl.

O ystyried yr effeithlonrwydd cyffredinol o ran amser o ganlyniad i drefnu un ddadl adroddiad pwyllgor yn hytrach na dwy, gofynnwn i chi ystyried:

- rhoi amser ychwanegol i Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau siarad, gan gydnabod y bydd yn cyflwyno adroddiad y Pwyllgor Deisebau;

- rhoi amser ychwanegol i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol siarad, gan gydnabod y bydd yn ymateb i ddau adroddiad; ac, o fewn rheswm,

- rhoi cyfle i bob Aelod o'r Senedd sy'n dymuno siarad yn ystod y ddadl wneud hynny.

Nid ydym yn credu y byddai angen gwneud unrhyw newidiadau sylweddol eraill i'r weithdrefn arferol ar gyfer dadleuon y Senedd ar adroddiadau pwyllgorau.

Rydym yn gobeithio y gallwch ymateb yn ffafriol i'n cais. Credwn fod ein dull arfaethedig yn ddefnydd synhwyrol o amser y Cyfarfod Llawn, ac yn caniatáu trafodaeth fwy cyflawn a chyfannol i'r Aelodau a rhanddeiliaid fel ei gilydd ar y materion pwysig a rhyng-gysylltiedig a godir yn y ddau adroddiad.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.